# Agenda - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad: **Fideo Gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 5 Tachwedd 2020

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Llinos Madeley**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddPPIA@senedd.cymru

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, penderfynodd y Cadeirydd wahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv.**

## Rhag-gyfarfod preifat

(08.45 - 09.15)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 COVID-19: Sesiwn dystiolaeth gyda Chomisiynydd Plant Cymru

(09.15 - 10.00) (Tudalennau 1 - 19)

Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru

Rachel Thomas, Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus - Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil ar gyfer eitemau 2 a 3

## Egwyl

(10.00 - 10.10)

## 3 Craffu ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2019 - 2020

(10.10 - 11.10)

Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Rachel Thomas, Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus - Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru

Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2019 - 2020

## 4 Papurau i'w nodi

**4.1 Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gan y Gweinidog Addysg ynghylch ymchwiliad y Pwyllgor i addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS)**

(Tudalennau 20 - 45)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-26-20 - Papur i'w nodi 1

**4.2 Llythyr ar y cyd at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch pryderon am yr effaith y mae pandemig COVID-19 yn ei chael ar iechyd meddwl amenedigol, a'r gydberthynas rhwng rhieni a babanod yng Nghymru**

(Tudalennau 46 - 49)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-26-20 - Papur i'w nodi 2 (Saesneg yn unig)

**4.3 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at holl Gadeiryddion y Pwyllgorau ynghylch craffu ar reoliadau COVID-19**

(Tudalennau 50 - 52)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-26-20 - Papur i'w nodi 3

**4.4 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Gweinidog Addysg ynghylch y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru): Cyfnod 1 (cwestiynau nas cyrhaeddwyd)**

(Tudalennau 53 - 54)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-26-20 - Papur i'w nodi 4

4.5 **Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Weinidogion Llywodraeth Cymru ynghylch y cyfnod atal byr a'i effaith ar blant a phobl ifanc**

(Tudalennau 55 - 56)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-26-20 - Papur i'w nodi 5

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(11.10)

## 6 Craffu ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2019 - 2020: trafod y dystiolaeth

(11.10 - 11.20)

## 7 Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru): ystyried y prif faterion

(11.20 - 11.50) (Tudalennau 57 - 67)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-26-20 - Papur Preifat

## 8 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021 - 2022: trafod llythyrau'r Pwyllgor at Lywodraeth Cymru

(11.50 - 12.00) (Tudalennau 68 - 85)

**Dogfennau atodol:**

CYPE(5)-26-20 - Papur Preifat

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 4.1

**CYPE(5)-26-20 - Papur i'w nodi 1**


**Kirsty Williams AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA-KW/3155/20

Lynne Neagle, AS
Cadeirydd
Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru

16 Hydref 2020


Government.Committee.Business@llyw.cymru

Annwyl Lynne

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Medi lle gwnaethoch ofyn am dystiolaeth ychwanegol er mwyn i'r Pwyllgor gwblhau'r ymchwiliad sy'n mynd rhagddo i addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS).

Rwyf wedi darparu atebion i'r cwestiynau y gwnaethoch eu gofyn yn y ddogfen atodedig.

Yn gywir



**Kirsty Williams AS/MS**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education


Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

1. **Sut mae COVID-19 wedi effeithio ar waith cyffredinol Llywodraeth Cymru ar addysg heblaw yn yr ysgol a chamau i roi'r Fframwaith Gweithredu ar waith?**

Yn ystod y pandemig, parhaodd y gwaith o gynyddu mynediad disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS) at y cwricwlwm drwy ddarpariaethau a nodwyd yn y Bil Cwricwlwm ac Asesu, a gyflwynwyd ar 6 Gorffennaf. Er mwyn cefnogi'r broses o roi'r bil ar waith, mae canllawiau ychwanegol Cwricwlwm i Gymru ar gyfer disgyblion sy'n mynychu unedau cyfeirio disgyblion a lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS) yn cael eu cyd-awduro ar hyn o bryd gan ymarferwyr a phobl eraill sydd â phrofiad o ddarpariaeth unedau cyfeirio disgyblion/addysg heblaw yn yr ysgol ac arbenigedd yn y maes.

Rwyf eisoes wedi cwblhau nifer o gamau gweithredu a nodwyd yn y fframwaith, sy'n cynnwys cyhoeddi Llawlyfr ar gyfer Pwyllgorau Rheoli Unedau Cyfeirio Disgyblion. Yn ogystal, rwyf wedi comisiynu a chyhoeddi'r gwaith ymchwil canlynol:

- Adolygiad o Drefniadau Comisiynu Awdurdodau Lleol ar gyfer Darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol
- Dadansoddiad o Ymarferion Cofrestru Disgyblion awdurdod lleol ar gyfer dysgwyr sy'n defnyddio darpariaeth PRU ac EOTAS
- Dadansoddiad o anghenion hyfforddi a datblygu pwyllgorau rheoli uned cyfeirio disgyblion
- Dadansoddiad o Baneli Atgyfeirio awdurdod lleol a/neu ymarferion i ddysgwyr sy'n cael mynediad at ddarpariaeth EOTAS

Cafodd y gwaith o ddatblygu Canllawiau Comisiynu ac Atgyfeirio ar gyfer Lleoliadau Addysg heblaw yn yr Ysgol a gwaith ar Weithdrefnau Agor a Chau Unedau Cyfeirio Disgyblion, y bwriadwyd ymgynghori arnynt eleni, ei ohirio o ganlyniad i flaenoriaethu gwaith COVID-19 i helpu awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau addysg i ddisgyblion agored i niwed. Roedd sicrhau bod gwasanaethau addysg yn parhau i ddisgyblion agored i niwed yn hanfodol yn ystod cyfnod y pandemig. Roedd gwaith COVID-19 yn cynnwys cyhoeddi Canllawiau ar gyfer cefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed a dan anfantais, sy'n cynnwys canllawiau ar gefnogi disgyblion EOTAS.

Mae gwaith bellach wedi ailddechrau ar roi'r cynigion a amlinellwyd yn y Fframwaith Gweithredu ar gyfer darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol ar waith.

Rwyf wedi blaenoriaethu'r gwaith o gynyddu mynediad at y cwricwlwm a'r Canllawiau Atgyfeirio a Chomisiynu ar gyfer EOTAS, gan fod y rhain yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cael eu rhoi mewn lleoliadau EOTAS sy'n briodol i'w hanghenion ac sy'n darparu addysg o ansawdd da sy'n eu galluogi i gyflawni eu potensial. Bydd yr ymgynghoriad ar y Canllawiau Comisiynu ac Atgyfeirio yn cael ei gynnal y flwyddyn nesaf.

**2. I ba raddau y mae plant iau (dan 8 oed) yn cael eu gwahardd?**

Rwyf bob amser wedi bod yn glir mai dim ond fel y dewis olaf y dylid gwahardd disgyblion yn barhaol. Mae'n gydnabyddiaeth gan yr ysgol ei bod wedi defnyddio pob strategaeth arall sydd ar gael i gefnogi'r disgybl.

Os nad oes modd osgoi gwaharddiad, mae ein Fframwaith Gweithredu ar gyfer EOTAS yn nodi rhaglen waith sy'n ceisio gwella canlyniadau i ddisgyblion EOTAS, gan gynnwys y rhai hynny sydd wedi cael eu gwahardd.

Mae ein tystiolaeth ddiweddaraf yn dangos y cafodd 13 o ddisgyblion eu gwahardd o ysgolion cynradd yn ystod 2017/18[1], cyfradd o 0.047 fesul 1000 o ddisgyblion. Yn 2018/19, roedd 70 o ddisgyblion dan 8 oed yn cael eu haddysgu mewn darpariaeth EOTAS[2].

Er ei bod yn bwysig nodi bod gwaharddiadau parhaol o ysgolion cynradd yn brin, rwy'n cydnabod yr effaith negyddol y gall gwahardd plant ifanc ei chael ar eu haddysg yn y dyfodol.

Rwyf hefyd yn cydnabod nad oes gennym dystiolaeth ddigonol i esbonio gwaharddiadau o ysgolion cynradd – dyma pam y byddaf yn comisiynu ymchwil i'r rhesymau dros wahardd disgyblion oedran ysgol gynradd. Bydd yr ymchwil hon yn rhan o brosiect ehangach a fydd yn ystyried unrhyw rwystrau sy'n atal ysgolion rhag

[1] https://llyw.cymru/gwaharddiadau-parhaol-chyfnod-penodol-o-ysgolion-medi-2017-i-awst-2018
[2] https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/disgyblion-syn-derbyn-addysg-heblaw-yn-yr-ysgol-medi-2018-i-awst-2019-190.pdf

cefnogi disgyblion i aros mewn addysg brif ffrwd, ac yn ychwanegu at ein dealltwriaeth ohonynt. Defnyddir y canfyddiadau i lywio canllawiau, gan gynnwys ein Canllawiau Atgyfeirio a Chomisiynu ar gyfer EOTAS, ar gefnogi disgyblion i aros mewn addysg brif ffrwd.

**3. Sut mae Llywodraeth Cymru yn cryfhau'r rhwydweithiau rhwng gwasanaethau addysg heblaw yn yr ysgol, ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia?**

Rwy'n ymrwymedig i atgyfnerthu'r rhwydweithiau sy'n bodoli rhwng gwasanaethau EOTAS a'u hysgolion lleol, awdurdodau lleol a chonsortiwm rhanbarthol, er mwyn sicrhau bod y disgyblion agored i niwed hyn yn cael pob cyfle i wireddu eu potensial.

Bydd y Canllawiau Atgyfeirio a Chomisiynu ar gyfer EOTAS, y byddwn yn ymgynghori arnynt y flwyddyn nesaf, yn cyfrannu at gryfhau'r rhwydweithiau hyn drwy nodi'n glir rolau a chyfrifoldebau'r cyfranogwyr gwahanol sy'n rhan o'r broses a thrwy ddiffinio'r wybodaeth y mae angen ei rhannu rhyngddynt yn glir. Bydd y canllawiau hefyd yn cynnig cyngor ar sut y gall awdurdodau lleol weithio gyda disgyblion, eu teuluoedd, darparwyr EOTAS ac ysgolion i sicrhau bod y ddarpariaeth maent yn ei chomisiynu yn briodol i'w hanghenion a'i bod yn galluogi disgyblion EOTAS i fanteisio ar y cwricwlwm newydd a chyflawni eu potensial.

Mae set o Rwydweithiau Cenedlaethol newydd sy'n cyd-fynd â phob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad, ynghyd â rhwydwaith sy'n canolbwyntio'n benodol ar addysgeg, yn rhan allweddol o'n dull gweithredu cenedlaethol ar gyfer y cwricwlwm newydd. Caiff Rhwydwaith Cenedlaethol ei sefydlu a fydd yn galluogi ymarferwyr i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth ymhellach er mwyn cyflwyno'r cwricwlwm newydd. Bydd pob ymarferydd, gan gynnwys y rhai o unedau cyfeirio disgyblion, yn cael y cyfle i fod yn rhan o waith y rhwydwaith. Rwy'n ymrwymedig i barhau i gyd-awduro ar lefel genedlaethol ag ymarferwyr o amrywiaeth o gyd-destunau, gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion.

Mae'r Gyfnewidfa Addysg Busnes wedi cael ei sefydlu. Cronfa ddata yw hon sy'n rhoi'r cyfle i gyflogwyr weithio gydag ysgolion er mwyn datblygu cynlluniau cwricwlwm ar gyfer disgyblion y ceir cysylltiad uniongyrchol rhyngddynt â busnes, cyflogwyr a phrofiad gwaith.

Rwy'n parhau i fuddsoddi symiau digynsail – dros £100m y flwyddyn ariannol hon – i wella canlyniadau i'n disgyblion dan anfantais drwy'r Grant Datblygu Disgyblion.Mae torri'r cylch tlodi ac anfantais yn parhau i fod yn ymrwymiad clir i ni fel Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Rwy'n cydnabod bod y pandemig yn cael yr effaith fwyaf ar rai o'n disgyblion mwyaf agored i niwed ac sy'n wynebu'r anfantais fwyaf, gan gynnwys disgyblion EOTAS. Mae elfen EOTAS y Grant Datblygu Disgyblion yn faes lle mae rhwydweithiau effeithiol rhwng partneriaid allweddol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y grant yn gweithredu'n effeithiol ac yn cael y gwerth a'r effaith fwyaf bosibl.

**4. Sut y bydd lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol yn cael eu hannog yn weithredol i ddefnyddio'r fframwaith ar gyfer y dull ysgol gyfan o ran iechyd meddwl? A fydd cyllid ar gael i unedau cyfeirio disgyblion gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r dull ysgol gyfan?**

Bydd y ddogfen Sefydlu Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Iechyd Meddwl a Llesiant Emosiynol yn sicrhau bod iechyd meddwl a llesiant yn dod yn rhan ganolog o'r ffordd y mae ysgolion yn gweithio. Rydym wedi darparu £5 miliwn y flwyddyn ariannol hon i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r dull ysgol gyfan. Mae hyn yn cynnwys cyllid i awdurdodau lleol er mwyn ehangu a gwella darpariaeth cwnsela mewn ysgolion, a chyllid i gyflwyno ymyriadau cyffredinol ac ymyriadau wedi'u targedu mewn ysgolion. Agwedd bwysig ar y rhaglen waith yw datblygu fframwaith er mwyn helpu ysgolion i ddatblygu eu dull gweithredu ysgol gyfan eu hunain.

Un rhan allweddol o'r fframwaith fydd y cymorth a roddwn i ddarparwyr i roi ymyriadau ar sail tystiolaeth ar waith gyda'r nod o gefnogi disgyblion ag iechyd meddwl gwael a'u helpu i feithrin gwydnwch. Rydym wedi ymgynghori'n helaeth ar y fframwaith, a fydd yn cynnig canllawiau statudol i awdurdodau lleol ac ysgolion a gynhelir, a daeth yr ymgynghoriad ffurfiol i ben ar 30 Medi. Rydym wrthi'n dadansoddi'r canlyniadau ar hyn o bryd ac yn bwriadu cyhoeddi'r fersiwn derfynol tua diwedd y flwyddyn neu ar ddechrau 2021.

Nododd ein hymgynghoriad y bydd y fframwaith yn statudol i bob ysgol a gynhelir a phob awdurdod lleol. Wrth inni ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad, byddwn yn

ystyried pa gymorth pellach sydd ei angen, yn enwedig i ddisgyblion sy'n agored i niwed, a beth sydd ei angen er mwyn cefnogi ysgolion i roi'r fframwaith ar waith.

Ynghyd â hyn, rydym hefyd yn ystyried ffyrdd o gefnogi ysgolion, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill i roi'r fframwaith ar waith. Cyhoeddir manylion am hyn pan gaiff y fframwaith terfynol ei gyhoeddi. Gallaf gadarnhau fy mod wedi rhoi cyllid i awdurdodau lleol gefnogi llesiant ym mhob ysgol, gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion.

Er mwyn gwella'r sylfaen dystiolaeth ynghylch iechyd meddwl disgyblion EOTAS sydd wedi'u gwahardd, bydd Uned Ymchwil Data Gweinyddol Cymru yn ymgymryd â phrosiect a fydd yn cysylltu data am addysg ac iechyd er mwyn nodi a oes gan ddisgyblion sydd wedi'u gwahardd neu sydd mewn darpariaeth EOTAS iechyd meddwl gwaeth na'r rhai mewn darpariaeth brif ffrwd. Disgwyliaf y bydd yn dechrau ar y gwaith hwn ddechrau'r flwyddyn nesaf.

5. **A yw darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol yn cael eu hannog yn weithredol i gael hyfforddiant ynghylch profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac a oes cymorth ar gael i'w helpu i wneud hyn, o gofio'r problemau o ran neilltuo amser er mwyn i staff unedau cyfeirio disgyblion gael hyfforddiant?**

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae'r Hwb Cymorth ACE i Gymru wedi cael ei gefnogi i gynnig hyfforddiant ymwybyddiaeth o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod i bob ysgol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys lleoliadau EOTAS a manteisiodd rhai staff o leoliadau EOTAS ar yr hyfforddiant hwn. Fodd bynnag, rydym yn gwybod bod nifer y staff sy'n gweithio mewn lleoliadau EOTAS sy'n manteisio ar yr hyfforddiant yn broblem ac rydym yn ystyried beth y gallwn ei wneud yn benodol er mwyn cefnogi ymarferwyr EOTAS i fanteisio ar hyfforddiant, pan fydd lleoliadau a'r Hwb mewn sefyllfa i allu ailafael yn y gwaith hwn.

Serch hynny, mae'r trefniadau i'r Hwb Cymorth ACE ddarparu hyfforddiant yn Sir y Fflint a Wrecsam yn mynd rhagddynt yn ôl y bwriad a gall yr Hwb ddarparu hyfforddiant ar-lein os na fydd modd ei gynnal wyneb yn wyneb. Mae'r Hwb yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol a bydd yn annog staff sy'n gweithio mewn lleoliadau EOTAS, gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion, i gymryd rhan.

Yn ogystal, mae deunyddiau hyfforddiant digidol newydd a mwy hygyrch a deunyddiau datblygu proffesiynol eraill ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod bellach ar gael ar Hwb, y llwyfan digidol ar gyfer dysgu ac addysgu yng Nghymru, felly maent ar gael i staff pob ysgol a phob lleoliad EOTAS.

**6. A oes unrhyw drafferthion penodol yn codi o ran cyllido darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol, o gofio'r posibilrwydd y gallai'r nifer sy'n manteisio ar y ddarpariaeth honno amrywio?**

Caiff darpariaeth EOTAS ei hariannu, ei threfnu a'i darparu gan awdurdodau lleol. Mae awdurdodau lleol yn defnyddio fformiwla gyllido leol er mwyn pennu eu cyllideb addysg, felly mae cyllid ar gyfer EOTAS yn amrywio o awdurdod i awdurdod gan ddibynnu ar y galw lleol.

Gall awdurdodau lleol gael gafael ar amrywiaeth o becynnau cyllid gan Lywodraeth Cymru er mwyn cefnogi darpariaeth EOTAS, sy'n cynnwys grantiau a chyllid fel y nodir isod.

**Grant Cynnal Refeniw**

Cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol ar gyfer darpariaeth cyn-16 oed mewn ysgolion yw Grantiau Cynnal Refeniw. Cânt eu darparu'n bennaf drwy'r setliad refeniw llywodraeth leol. Mae awdurdodau lleol yn defnyddio fformiwla gyllido leol i ddyrannu cyllid i EOTAS a gwasanaethau er mwyn helpu disgyblion i aros mewn addysg amser llawn.

**Cyllid Cyfalaf**

Mae cyllid o'n rhaglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif yn cefnogi'r gwaith o adnewyddu unedau cyfeirio disgyblion a chodi adeiladau newydd yn eu lle.

Mae rhaglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif yn cynrychioli'r buddsoddiad strategol mwyaf yn seilwaith addysgol Cymru ers yr 1960au.

Lefel wreiddiol y cymorth grant ar gyfer cynlluniau cyfalaf oedd 50%, ond ym mis Tachwedd 2019, cyhoeddais gynnydd yn y gyfradd ymyrryd. I ysgolion prif ffrwd, fe'i cynyddwyd i 65%, a 75% i ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion. Hyd yn hyn, mae pedwar prosiect sy'n gysylltiedig ag unedau cyfeirio disgyblion wedi cael eu nodi gan bedwar awdurdod lleol fel prosiectau i fuddsoddi ynddynt yn ystod ail don fuddsoddi'r rhaglen – bydd y pedwar yn cynnwys codi adeiladau newydd.

Roedd y don fuddsoddi gyntaf (Band A) ar waith rhwng 2014 a 2019 lle buddsoddwyd dros £1.4 biliwn ledled Cymru. Dechreuodd yr ail don fuddsoddi (Band B) ym mis Ebrill 2019 a chaiff £2.3 biliwn ei fuddsoddi. Ym Mand B, fy nod yw cefnogi oddeutu 200 o brosiectau. Mae awdurdodau lleol wedi cyflwyno amlinelliad bras o'u cynlluniau ar gyfer Band B ac wedi nodi'r prosiectau unigol maent yn dymuno eu rhoi ar waith er mwyn diwallu'r anghenion addysgol yn eu hawdurdod penodol. Mae'r cynlluniau lefel uchel hyn wedi cael eu cymeradwyo mewn egwyddor yn amodol ar gyflwyno achosion busnes ar gyfer prosiectau unigol. Mae'r cam hwn yn parhau i leihau nifer yr ysgolion a'r colegau sydd mewn cyflwr gwael; yn sicrhau digon o leoedd i ddarparu addysg Gymraeg ac addysg Saesneg; ac yn sicrhau bod yr ystad addysgol yn cael ei defnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon. Bydd cyllid hefyd yn cefnogi gwaith i adnewyddu unedau cyfeirio disgyblion a chyfleusterau i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, ac i ddarparu cyfleusterau newydd yn eu lle, lle y bo'n briodol.

**Y Grant Datblygu Disgyblion**

Cyflwynwyd y Grant Datblygu Disgyblion yn 2012 er mwyn rhoi cyllid ychwanegol i ysgolion yn seiliedig ar nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu ar gyfer disgyblion sy'n derbyn gofal.

Yn 2019, cyflwynais elfen newydd i'r grant sef Y Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad sy'n rhoi hyd at £200 i deuluoedd er mwyn helpu i dalu am rai o gostau'r diwrnod ysgol, gan gynnwys gwisg ysgol, offer, dillad chwaraeon a chyfarpar ar gyfer gweithgareddau y tu allan i'r ysgol. Gall disgyblion mewn unedau cyfeirio disgyblion sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd wneud cais am y grant hwn.
Yn 2020/21, roedd dros £700,000 o gyllid ar gael ar gyfer elfen EOTAS y Grant Datblygu Disgyblion, gyda £1,150 yn cael ei glustnodi ar gyfer pob disgybl.

**Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau**

Yn ystod yr argyfwng, mae wedi dod i'r amlwg nad yw nifer o ddysgwyr wedi gwneud cymaint o gynnydd yn eu dysgu ag y gallent fod wedi'i wneud, ac mae'r sefyllfa wedi cael effaith fwy difrifol ar rai nag eraill. Mae tystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau dibynadwy (Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, ARC, Estyn, y rhanbarthau, Ymddiriedolaeth Sutton, y Comisiynydd Plant, Barnardo’s, diweddariadau gwybodaeth rhyngwladol), gan gynnwys y rhai sy'n canolbwyntio'n fanwl ar Gymru, yn awgrymu bod yr argyfwng wedi effeithio ar y rhan fwyaf o ddysgwyr, os nad pob un, a'i fod wedi effeithio fwyaf ar y rhai mwyaf agored i niwed.

Mewn ymateb i'r dystiolaeth hon, drwy ein rhaglen “Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau”, byddaf yn darparu £29 miliwn ychwanegol i ysgolion er mwyn rhoi mwy o gymorth i ddisgyblion sydd ar gamau pwysig yn eu haddysg o fis Medi.

Bydd cyfwerth â 600 o athrawon ychwanegol a 300 o gynorthwywyr addysgu ychwanegol yn cael eu recriwtio drwy gydol y flwyddyn ysgol nesaf, gan ddarparu cymorth ychwanegol i Flynyddoedd 11, 12 a 13 a hefyd i ddisgyblion o bob oed sy'n agored i niwed a dan anfantais.

Gallai'r pecyn cymorth, a ddarperir mewn ysgolion, gynnwys cymorth coetsio ychwanegol, rhaglenni dysgu wedi'u personoli, ac amser ac adnoddau ychwanegol i ddisgyblion mewn blynyddoedd sy'n sefyll arholiadau. Mae awdurdodau lleol wedi cael dyraniad er mwyn sicrhau y gallant ymateb hefyd.

**Cyllid ar gyfer cwnsela**

Rwyf wedi darparu £626,000 i awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol er mwyn mynd i'r afael â rhestrau aros ar gyfer gwasanaethau cwnsela ac i'r gwasanaeth feithrin trefniadau cydweithredol â darparwyr cwnsela eraill. Mae'r ffordd y defnyddir y cyllid yn amrywio yn ôl awdurdod lleol, ond mae llawer wedi defnyddio'r cyllid i brynu sesiynau ychwanegol o amser cwnsela er mwyn mynd i'r afael â rhestrau aros.

**7. Pa ystyriaeth sy'n cael ei rhoi i fesur canlyniadau darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol i asesu'r gwahaniaeth y maent yn ei wneud i fywydau dysgwyr? I ba raddau y mae darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol yn rhan o'r gwaith hwn?**

Mae'r Fframwaith Gweithredu ar gyfer EOTAS yn amlinellu'r gwaith sydd wedi'i gynllunio er mwyn gwella canlyniadau i ddisgyblion EOTAS.

Mae hyn yn cynnwys nifer o gamau i fesur canlyniadau ar gyfer disgyblion EOTAS:

- gwaith sy'n cael ei wneud fel rhan o'r trefniadau gwerthuso a gwella newydd;
- casglu data am gyrchfannau disgyblion EOTAS;
- datblygu canllawiau ar drefniadau comisiynu ac atgyfeirio mewn perthynas ag EOTAS;
- y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid;
- telerau ac amodau'r Grant Datblygu Disgyblion.

**Trefniadau gwerthuso a gwella**

Ers cyhoeddi Cenhadaeth ein Cenedl, a gan ddefnyddio gwybodaeth o adolygiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd o addysg yng Nghymru yn 2017, rydym wedi gweithio gyda rhanddeiliaid er mwyn cynnal adolygiad sylfaenol o'r system atebolrwydd bresennol.

Mae hyn yn cynnwys datblygu trefniadau gwerthuso a gwella newydd er mwyn egluro'r gydberthynas rhwng gwerthuso, gwella ac atebolrwydd yn y system ysgolion. Er bod llawer o arferion da i'w gweld wrth ddefnyddio ystod o ddata i lywio gwaith gwerthuso, cydnabyddir bod pwyslais anghymesur wedi cael ei roi dros y blynyddoedd diwethaf ar un neu ddau fesur perfformiad cul wrth ddwyn ysgolion i gyfrif. Drwy'r trefniadau newydd, rwy'n cynnig cael gwared ar y pwyslais hwn, sy'n gallu achosi canlyniadau anfwriadol, ac i ysgolion ddefnyddio ystod ehangach o wybodaeth sy'n rhoi darlun gwell o'r profiad dysgu cyfan, cynnydd disgyblion a'n huchelgeisiau ar gyfer y cwricwlwm newydd.

Symudodd mesurau perfformiad dros dro a gyflwynwyd ar gyfer 2018/19 y pwyslais oddi ar nifer bach o ddangosyddion trothwy cul a'r canlyniadau anfwriadol a oedd

wedi deillio ohonynt, megis y ffocws ar y ffin graddau C/D, tuag at set o fesurau sy'n hyrwyddo uchelgeisiau uwch i bob disgybl.

Rwyf wedi gohirio mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 ar gyfer 2019/20 a 2020/21, mewn ymateb i COVID-19. Mae hyn yn golygu na fydd data am y cymwysterau a ddyfarnwyd yn cael eu defnyddio i adrodd ar ganlyniadau cyrhaeddiad ar lefel ysgolion, awdurdodau lleol na chonsortia rhanbarthol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cael gwared ar y gofyniad i ddarparwyr dysgu ymgymryd ag ymarferion hunanwerthuso effeithiol er mwyn cefnogi gwelliant parhaus gan ddefnyddio ystod eang o wybodaeth sy'n berthnasol i ddisgyblion unigol yng nghyd-destun eu lleoliad dysgu.

Mae disgyblion EOTAS yn y cwmpas ar gyfer datblygu'r trefniadau gwerthuso a gwella. Mae hyn yn cynnwys archwilio opsiynau ar gyfer crynhoi effeithiau darpariaeth EOTAS ar ddeilliannau disgyblion er mwyn llywio prosesau cynllunio gwelliant, mewn ffordd sy'n gyson â threfniadau ysgolion a gynhelir yn y dyfodol. Bydd penderfyniadau ynghylch anghenion gwybodaeth yn y dyfodol a'r systemau cysylltiedig yn cael eu llywio gan brosiect ymchwil annibynnol. Caiff lleoliadau EOTAS, unedau cyfeirio disgyblion a lleoliadau eraill eu hystyried fel rhan o'r ymchwil hon. Bu'n rhaid gohirio'r gwaith hwn oherwydd COVID-19, ond mae wedi ailddechrau erbyn hyn.

**Data am gyrchfannau**

Mae gwaith yn mynd rhagddo i gynnwys data am ddisgyblion EOTAS yn y set ddata Deilliannau Addysg Hydredol. Mae'r set ddata hon yn cysylltu cofnodion dysgwyr â chofnodion cyflogaeth, enillion a budd-daliadau a ddelir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn nodi a dadansoddi cyrchfannau dysgwyr sy'n mynd ymlaen i addysg bellach a/neu gyflogaeth ar ôl gadael yr ysgol. Bydd data EOTAS o 2014 hyd yma (sef ychydig llai na 4,000 o gofnodion) yn cael eu cynnwys yn y set ddata Deilliannau Addysg Hydredol o'r flwyddyn nesaf ymlaen.

**Y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid**

Mae'r [Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid] ar gyfer pobl ifanc 11-25 oed yn ffordd arall o wella canlyniadau i bobl ifanc, gan eu cefnogi i aros mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Ar ôl nodi a chefnogi plant a phobl ifanc sy'n wynebu risg o ymddieithrio o addysg, mae'n olrhain eu cynnydd i addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant.

**Telerau ac amodau'r Grant Datblygu Disgyblion**

Fel rhan o delerau ac amodau'r Grant Datblygu Disgyblion, mae'n ofynnol i gonsortia rhanbarthol nodi sut y byddant yn sicrhau bod ymarferwyr yn monitro ac yn gwerthuso pa mor effeithiol yw eu dull gweithredu er mwyn sicrhau deilliannau gwell i ddisgyblion EOTAS. Yn ogystal, mae'n ofynnol iddynt sicrhau bod targedau realistig ond heriol yn cael eu gosod i ddarparwyr EOTAS, gyda gofyniad i gynnwys targedau ar gyfer deilliannau disgyblion.

**8. Beth yw'r rhesymau dros yr oedi y mae rhai teuluoedd yn ei wynebu wrth gael mynediad at ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol? A oes pryderon ynghylch effaith yr oedi hwn ar ddysgwyr a'u teuluoedd, a beth arall y gellir ei wneud i'w cefnogi? A oes rhagor o achosion o oedi mewn rhannau penodol o Gymru?**

Yn 2019, o'r 1,887 o gofrestriadau ar gyfer disgyblion yr oedd eu prif addysg yn cael ei darparu mewn lleoliad heblaw yn yr ysgol, roedd 28 o gofrestriadau yn aros am ddarpariaeth[3]. Mae hyn yn cynrychioli 1.5% o'r cofrestriadau. Nid oes tystiolaeth i awgrymu bod nifer uwch o achosion mewn ardaloedd awdurdod lleol penodol.

Mae amrywiaeth eang o resymau pam y gall fod oedi wrth ddod o hyd i leoliad i ddisgyblion EOTAS. Mae gan ddisgyblion a gaiff eu hatgyfeirio at EOTAS anghenion cymhleth a gall gymryd amser i nodi darpariaeth briodol i ddiwallu eu hanghenion.

[3] Gan fod disgyblion o bosibl yn mynychu mwy nag un ddarpariaeth addysg mewn wythnos, efallai y caiff rhai disgyblion eu cyfrif ar gyfer mwy nag un ddarpariaeth. Felly mae nifer y cofrestriadau yn fwy na nifer y disgyblion y mae eu prif addysg yn cael ei darparu mewn lleoliad heblaw yn yr ysgol (1,784 o ddisgyblion). https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/disgyblion-syn-derbyn-addysg-heblaw-yn-yr-ysgol-medi-2018-i-awst-2019-190.pdf

Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am ddarparu addysg i ddisgyblion nad ydynt yn gallu mynychu'r ysgol, am ba reswm bynnag. Os nad yw'n bosibl i awdurdodau lleol drefnu lleoliad uniongyrchol er mwyn diwallu anghenion disgybl nad yw'n gallu mynychu'r ysgol, disgwyliaf i'r awdurdod lleol roi trefniadau dros dro ar waith hyd nes y gellir trefnu lleoliad. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, addysg yn y cartref.

Fel rhan o'r broses o roi'r Fframwaith Gweithredu ar gyfer EOTAS ar waith, byddaf yn cyhoeddi canllawiau Atgyfeirio a Chomisiynu ar gyfer EOTAS. Bydd y rhain yn cynnwys cyngor ar brosesau a chyfrifoldebau sy'n gysylltiedig ag atgyfeirio disgyblion at EOTAS, yn ogystal â sut i gomisiynu a darparu gwasanaethau EOTAS. Bydd y canllawiau yn glir na ddylai addysg disgyblion EOTAS gynnwys unrhyw fylchau ac, os nad yw'n bosibl trefnu lle i ddisgybl mewn darpariaeth briodol yn syth, y dylid rhoi trefniadau priodol ac addas ar waith dros dro.

9. **Beth yw eich barn am lefelau'r ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol sydd heb ei chofrestru sy'n cael ei chomisiynu gan awdurdodau lleol? A oes unrhyw bryderon o ran diogelu plant yn codi mewn perthynas â darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol sydd heb ei chofrestru a gomisiynir gan awdurdodau lleol?**

Yn amlwg, nid yw'n dderbyniol i ddisgyblion EOTAS gael eu lleoli mewn ysgolion annibynnol anghofrestredig. Rwy'n ymrwymedig i sicrhau nad yw hyn yn digwydd a lle y cefais wybod bod darparwyr EOTAS yn gweithredu fel ysgolion annibynnol anghofrestredig, rwyf wedi cymryd camau gweithredu ar unwaith. Pan fydd ymholiadau wedi pennu bod darparwr yn ysgol annibynnol anghofrestredig, mae fy swyddogion wedi hysbysu'r darparwr y dylai roi'r gorau i ddarparu addysg amser llawn ar unwaith ac maent wedi cynghori'r awdurdodau lleol perthnasol i ddod o hyd i ddarpariaeth amgen ar gyfer disgyblion EOTAS nes y bydd y darparwr wedi cofrestru'n swyddogol.

Yn fwy cyffredinol, ysgrifennais at yr holl awdurdodau lleol ym mis Mehefin 2018 yn eu hatgoffa o'u cyfrifoldebau i sicrhau bod eu darparwyr EOTAS wedi'u cofrestru, lle y bo'n ofynnol.

Er nad oes gennyf unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod ysgolion annibynnol anghofrestredig yn broblem fwy nag achosion unigol, rwy'n ymrwymedig i sicrhau

nad yw awdurdodau lleol yn lleoli disgyblion EOTAS mewn ysgolion annibynnol anghofrestredig.

Un o'r agweddau allweddol ar y cyngor a ddarperir yn y canllawiau atgyfeirio a chomisiynu ar gyfer EOTAS fydd cyfrifoldeb awdurdodau lleol i sicrhau bod gwaith diwydrwydd dyladwy yn cael ei gynnal cyn lleoli disgyblion mewn darpariaeth EOTAS. Mae gwaith diwydrwydd dyladwy yn cynnwys casglu gwybodaeth, fel rhan o'r broses gomisiynu, a fydd yn rhoi sicrwydd i'r awdurdod lleol bod darparwyr yn cydymffurfio â gofynion eu cofrestriad a bod trefniadau diogelu hanfodol eraill ar waith. Mae rhoi diwydrwydd dyladwy wrth wraidd y broses gomisiynu yn hanfodol er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant pob disgybl EOTAS.

Fodd bynnag, ni fydd yn ofynnol i bob darparwr EOTAS annibynnol gofrestru fel ysgol annibynnol. O dan Adran 463 o Ddeddf Addysg 1999, ystyr ysgol annibynnol yw unrhyw ysgol nas cynhelir gan awdurdod lleol sy'n darparu addysg amser llawn ar gyfer:

- pum disgybl neu fwy sydd o oedran ysgol gorfodol; neu
- un disgybl neu fwy sydd o oedran ysgol gorfodol ac sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig, neu sy'n derbyn gofal cyhoeddus (yn unol â'r ystyr a nodir yn adran 22 o Ddeddf Plant 1989).

Rhaid i unrhyw ysgol sy'n bodloni'r diffiniad fod wedi'i chofrestru â Llywodraeth Cymru. Nid oes diffiniad cyfreithiol o ‘amser llawn’. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod sefydliad yn darparu addysg amser llawn os yw'n darparu addysg y bwriedir iddi ddarparu addysg gyfan plentyn, neu ran sylweddol ohoni.

**10. A oes rôl i awdurdodau lleol wrth sicrhau ansawdd, monitro neu werthuso’r ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol a drefnir gan ysgolion unigol?**

Mae Adran 19(1) o Ddeddf Addysg 1996 yn gosod cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i drefnu darpariaeth EOTAS. Nid yw Adran 19(1) o Ddeddf Addysg 1996 yn rhoi'r pŵer i ysgolion a gynhelir drefnu na chynnig darpariaeth EOTAS.

Fodd bynnag, gall ysgolion prif ffrwd drefnu neu ddarparu addysg y tu allan i'r ysgol gan ddefnyddio'r darpariaethau yn Neddf Addysg 2002. Er bod y darpariaethau hyn yn golygu bod gan ysgolion bwerau sydd, mewn rhai achosion, yn eu galluogi i ariannu a threfnu neu gyflwyno darpariaeth i ddisgyblion sydd wedi'u cofrestru yn yr ysgol sy'n debyg i'r ddarpariaeth a gaiff disgyblion EOTAS, megis addysg yn y cartref neu addysg bellach, mae'r dyletswyddau sydd gan ysgolion mewn perthynas â'r ddarpariaeth hon yn wahanol i'r cyfrifoldebau sydd gan awdurdodau lleol. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos y Cwricwlwm Cenedlaethol. Oni bai fod eithriadau yn gymwys, bydd ysgolion sy'n comisiynu darpariaeth y tu allan i'r ysgol yn parhau i fod yn gyfrifol am sicrhau bod disgyblion yn gallu manteisio ar y Cwricwlwm Cenedlaethol llawn.

Gan nad yw darpariaeth a drefnir gan ysgolion y tu allan i'r ysgol yr un peth â darpariaeth EOTAS, yr ysgolion sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd y ddarpariaeth. Er mwyn cynorthwyo ysgolion gyda'r swyddogaeth hon, rwy'n datblygu trefniadau gwerthuso a gwella newydd a fydd yn cynnwys ystyried sut y gellir casglu gwybodaeth am ddarpariaeth y tu allan i addysg brif ffrwd ac adrodd arni. Caiff y trefniadau gwerthuso a gwella newydd eu cyflwyno yn lle rhannau o'r system atebolrwydd bresennol. O dan y system ddiwygiedig, bydd pob plentyn yn cyfrif a chaiff ysgolion eu gwerthuso ar sail y gwahaniaeth a wnânt i gynnydd pob plentyn.

Caiff yr addysg a ddarperir i ddisgyblion sydd wedi'u cofrestru mewn addysg brif ffrwd ei harolygu gan Estyn. Wrth arolygu ysgolion lle mae disgyblion yn cael rhan o'u haddysg oddi ar y safle neu ar y safle mewn grwpiau anogaeth neu ddarpariaeth cynhwysiant, mae Llawlyfr Arweiniad ar gyfer Arolygu Ysgolion Uwchradd Estyn yn nodi'n glir y dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae'r cwricwlwm hwn yn diwallu eu hanghenion.

Yn ogystal, fel rhan o'i gwaith arolygu, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd, mae Estyn yn cadarnhau faint o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn sydd wedi cael eu ‘tynnu oddi ar y gofrestr’ (ar gyfer disgyblion â chofrestriad deuol a sengl) ar gyfer EOTAS a ariennir gan yr awdurdod lleol, y rhesymau dros hyn, a threfniadau ar gyfer ailintegreiddio a chydweithio â'r ysgol ‘gartref’, os oes trefniadau o'r fath.

**11. Pa ystyriaeth sydd wedi'i rhoi i alluogi disgyblion mwy galluog a thalentog i gael mynediad at gwricwlwm sy'n addas i'w hanghenion o fewn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol?**

Mewn perthynas â'n disgyblion mwy abl a thalentog, mae gwaith yn mynd rhagddo i adeiladu'r sylfaen dystiolaeth o ran yr hyn sy'n gweithio ac annog safonau uwch drwy ddatblygu dull cenedlaethol newydd ar gyfer sut y caiff y disgyblion hyn eu nodi a'u meithrin. Mae ein consortia addysg rhanbarthol wedi bod yn treialu dulliau yn uniongyrchol gydag ysgolion er mwyn profi'r hyn sy'n gweithio orau i ddisgyblion mwy abl a thalentog yng Nghymru, nawr ac yng nghyd-destun y gwaith o ddatblygu ein trefniadau ar gyfer y cwricwlwm newydd i Gymru. Dylai gwersi a ddysgir lywio'r dulliau a ddefnyddir mewn unedau cyfeirio disgyblion a lleoliadau EOTAS eraill yn yr un modd er mwyn cefnogi disgyblion mwy abl a thalentog.

Drwy gryfhau dulliau polisi, a gweithio mewn partneriaeth â Chonsortia Addysg Rhanbarthol, codwyd proffil disgyblion mwy abl a thalentog yng Nghymru, fel bod ysgolion mewn sefyllfa well i nodi'r disgyblion hyn, a bod gan athrawon y sgiliau i'w cefnogi i gyflawni eu gwir botensial.

Mae'r dull a gaiff ei lywio gan dystiolaeth yn un o gonglfeini hanfodol y dyheadau i gael system sy'n hunanwella, gyda phartneriaid ar bob haen yn gweithredu fel sefydliadau myfyriol sy'n dysgu ac sy'n seiliedig ar ymchwil. Mae'r arferion gorau sy'n dod i'r amlwg o'r ymdrechion hyn wedi cael eu cydgrynhoi ar y cyd â chasgliadau ymchwil i lywio diffiniad cenedlaethol newydd er mwyn helpu i nodi a chefnogi'r disgyblion hyn, ac i lywio rhaglen dysgu proffesiynol genedlaethol newydd.

Fel gydag agweddau eraill ar y Cwricwlwm i Gymru, mae canllawiau ychwanegol ar gyfer unedau cyfeirio disgyblion ac EOTAS yn cael eu datblygu mewn partneriaeth a thrwy waith cyd-awduro gan ymarferwyr a phobl eraill sydd â phrofiad o ddarpariaeth o'r fath ac arbenigedd yn y maes. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi fersiwn ddrafft o'r canllawiau ychwanegol er mwyn cael adborth arnynt ar ddechrau 2021.

Dylai'r dull pan fydd disgybl yn dechrau cael EOTAS fod yr un peth â'r hyn a ddisgrifir yn y Cwricwlwm i Gymru ar gyfer pob disgybl sy'n dechrau mewn ysgol neu leoliad newydd.  Dylai'r rhai sy'n comisiynu'r ddarpariaeth EOTAS sicrhau eu bod yn

deall ar ba gam yn ei ddysgu y mae'r unigolyn a'r cynnydd mae wedi'i wneud hyd yn hyn, a dylent rannu'r wybodaeth hon â'r rhai sy'n darparu EOTAS. Dylid defnyddio'r ddealltwriaeth hon i nodi man cychwyn y disgybl a ffyrdd o'i gefnogi i symud ymlaen yn ei ddysgu. Dylai'r rhai sy'n rhan o gomisiynu a darparu EOTAS ystyried gwybodaeth a ddarperir gan y rhai sydd wedi cefnogi addysg y disgybl yn flaenorol.

Mae asesu yn rhan hanfodol o ddylunio'r cwricwlwm a'i ddiben cyffredinol o fewn y cwricwlwm yw cefnogi pob disgybl i wneud cynnydd. Mae'n rhan hollbwysig o ddysgu ac addysgu ac mae'n gofyn am bartneriaethau effeithiol ymhlith pawb sy'n rhan o'r broses, gan gynnwys y disgybl.

Mae gan asesu rôl hanfodol wrth sicrhau bod pob disgybl unigol yn cael ei gefnogi a'i herio'n briodol. Dylai gyfrannu at ddatblygu darlun cyfannol o'r disgybl – ei gryfderau, y ffyrdd y mae'n dysgu a'i feysydd i'w datblygu – er mwyn llywio'r camau dysgu ac addysgu nesaf.

**12. I ba raddau y mae unedau cyfeirio disgyblion a darparwyr eraill yn barod ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd?**

Rwy'n ymrwymedig i sicrhau bod pob ymarferydd yn cael y cymorth sydd ei angen arno i gyflwyno ein cwricwlwm gweddnewidiol newydd.

Rwy'n disgwyl y bydd y ffordd y mae ein hymarferwyr a'n harweinwyr yn meddwl am eu dysgu proffesiynol yng ngoleuni'r cwricwlwm newydd yn newid yn sylweddol. Rwyf wedi clustnodi cyllid i gefnogi mynediad at y dysgu proffesiynol sydd ei angen er mwyn cyflwyno'r cwricwlwm newydd. Yn 2019/20, darparwyd £24m i ysgolion drwy'r grant dysgu proffesiynol a chlustnodwyd £180,000 ychwanegol i'r holl unedau cyfeirio disgyblion yng Nghymru er mwyn sicrhau eu bod yn gallu manteisio ar y cyfleoedd dysgu proffesiynol gofynnol. Bydd £12m ychwanegol yn cael ei ddarparu i ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion yn 2020/2021.

Bydd set newydd o Rwydweithiau Cenedlaethol sy'n cyd-fynd â phob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad, ynghyd â rhwydwaith sy'n canolbwyntio'n benodol ar addysgeg yn rhan allweddol o'n dull gweithredu cenedlaethol. Bydd y rhwydweithiau hyn yn fodd i

ymgysylltu â'r sector ehangach er mwyn sicrhau bod pob ymarferydd yn cael y cymorth i feithrin ei sgiliau a'i wybodaeth ymhellach i gyflwyno'r cwricwlwm newydd.

Byddaf yn sicrhau bod unedau cyfeirio disgyblion yn cyfrannu at y Rhwydweithiau Cenedlaethol ar gyfer Gwireddu'r Cwricwlwm – bydd pob rhwydwaith yn gyfrifol am sicrhau bod datblygiadau'n cael eu cyfleu'n eang ym mhob rhan o'r sector. Byddaf hefyd yn cefnogi'r maes gwaith hwn er mwyn sicrhau y caiff y broses o wireddu'r cwricwlwm ei chyfleu'n eang.

Fel gydag agweddau eraill ar y Cwricwlwm i Gymru, mae canllawiau ychwanegol ar gyfer unedau cyfeirio disgyblion ac EOTAS yn cael eu datblygu mewn partneriaeth a thrwy waith cyd-awduro gan ymarferwyr a phobl eraill sydd â phrofiad o ddarpariaeth o'r fath ac arbenigedd yn y maes. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi fersiwn ddrafft o'r canllawiau ychwanegol er mwyn cael adborth arnynt ar ddechrau 2021.

**13. I ba raddau y mae dysgwyr mewn lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol yn gallu cael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl digonol? Pa ystyriaeth sydd wedi'i rhoi i wella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed gan ddysgwyr mewn lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol?**

Mae llesiant ein holl ddysgwyr yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru.

Mae nifer o wasanaethau a rhaglenni ar waith i gefnogi llesiant ac iechyd meddwl pob dysgwr. Mae hyn yn cynnwys:

- rhaglen Gyda'n Gilydd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc;
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS);
- dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a llesiant;
- gwasanaethau cwnsela;
- hwb cymorth ACE.

**Rhaglen Gyda'n Gilydd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc**

Mae'r rhaglen Gyda'n Gilydd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc wedi cael ei hestyn tan fis Mawrth 2021. Mae'r estyniad hefyd yn golygu y bydd y ddarpariaeth yn parhau tan fis Mawrth 2022, yn amodol ar gytundeb gan Lywodraeth newydd.

Ariennir y rhaglen gan Lywodraeth Cymru a chaiff ei harwain gan y GIG. Rhaglen wella ar gyfer gwasanaethau amlasiantaethol ydyw sy'n gweithio i ailffurfio, ailfodelu ac ailganolbwyntio'r gwasanaethau iechyd emosiynol ac iechyd meddwl a ddarperir i blant a phobl ifanc yng Nghymru.

**Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)**

Rhoddir mynediad at wasanaethau CAMHS yn seiliedig ar anghenion ac ni roddir blaenoriaeth i garfanau penodol, e.e. plant sy'n derbyn gofal.

Mae mynediad at wasanaethau iechyd meddwl y GIG, megis CAMHS/ niwroddatblygiad, yn seiliedig ar yr unigolyn a'i anghenion, ac ni roddir blaenoriaeth i grwpiau penodol. Nid yw'r math o ddarpariaeth addysgol yn cael unrhyw effaith ar fynediad at y gwasanaethau hyn. Gan fod gwasanaethau iechyd meddwl y GIG yn annibynnol ar leoliad addysgol person ifanc, ni ddylai mynychu darpariaeth EOTAS rwystro unigolyn rhag cael cymorth iechyd meddwl.

Ers 2015, rydym wedi buddsoddi cyllid ychwanegol bob blwyddyn yn gyson er mwyn gwella gwasanaethau CAMHS. O ganlyniad, mae llai o blant yn aros am gyfnodau hir am gymorth iechyd meddwl arbenigol.

**Pecyn Adnoddau Iechyd Meddwl Pobl Ifanc**

Rydym wedi creu adnodd ar-lein sydd ar gael i'r cyhoedd sy'n hyrwyddo'r adnoddau digidol niferus a ddyluniwyd yn benodol i gefnogi pobl ifanc gyda'u hiechyd meddwl a'u llesiant emosiynol eu hunain. Mae'r Pecyn Adnoddau Iechyd Meddwl Pobl Ifanc yn cysylltu pobl ifanc, rhwng 11 a 25 oed, o'r Hwb i amrywiaeth eang o adnoddau ar-lein. Ym mhob un o'r chwe adran, mae hyd at ddeg o wefannau hunangymorth, apiau, llinellau cymorth a mwy sy'n cefnogi iechyd meddwl a llesiant.

**Dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a llesiant**

Drwy ein gwaith ar y dull ysgol gyfan, rydym yn datblygu fframwaith i gefnogi ysgolion. Er bod gan ganllawiau'r fframwaith hwn ffocws penodol ar blant mewn ysgolion a gynhelir, bydd yr un mor gymwys i ddisgyblion mewn lleoliadau EOTAS, addysg bellach neu leoliadau galwedigaethol ac addysg uwch.

Mae swyddogion yn gweithio gyda phrifysgolion yng Nghymru i ddatblygu modiwlau hyfforddiant ar gyfer athrawon newydd a rhai presennol ar ddatblygiad plant a llesiant emosiynol a meddyliol. Dylai'r modiwlau hyn roi'r sgiliau i arweinwyr, athrawon a staff eraill ysgolion i nodi'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf o gael eu gwahardd neu fynd i leoliad EOTAS, gan eu galluogi i ymyrryd yn gynt a chefnogi disgyblion sy'n agored i niwed.

Rydym wedi rhoi £600,000 o gyllid i awdurdodau lleol eleni i ddarparu ymyriadau cyffredinol ac ymyriadau wedi'u targedu i ddisgyblion er mwyn diwallu eu hanghenion.

**Gwasanaethau cwnsela**

Ers 2013, mae dyletswydd wedi bod ar awdurdodau lleol yng Nghymru i ddarparu gwasanaeth cwnsela annibynnol i bobl ifanc 11 i 18 oed yn eu hardal, nid dim ond drwy eu hysgolion ond hefyd yn y gymuned. Ni ddylai'r lleoliad ble mae plentyn yn cael ei addysg ei rwystro rhag cael y gwasanaeth hwn.

Rhwng mis Hydref a mis Tachwedd 2019, ymgynghorais ar y Pecyn Cymorth Gweithredu Drafft ar gyfer Cwnsela mewn Ysgolion a Chymunedau. Mae'r Pecyn Cymorth Gweithredu Drafft ar gyfer Cwnsela mewn Ysgolion a Chymunedau diwygiedig, a gyhoeddwyd yn gynharach yn 2020, bellach yn cynnig cyngor ychwanegol i ysgolion ac awdurdodau lleol ar sicrhau bod gwasanaethau cwnsela yn parhau i gael eu darparu i ddisgyblion sydd wedi cael eu gwahardd dros dro neu'n barhaol.

Rwyf wedi rhoi £1.252m i awdurdodau lleol eleni er mwyn gwella ac ymestyn y gwasanaeth cwnsela presennol mewn ysgolion.  Mae gwybodaeth a ddarparwyd gan awdurdodau lleol yn dangos y bydd hyn yn golygu y gellir darparu 14,000 o sesiynau cwnsela ychwanegol mewn ysgolion, a fydd o fudd i 3,500 o blant a phobl ifanc ychwanegol.  Rwyf hefyd wedi rhoi £466,500 ychwanegol i awdurdodau lleol eleni er mwyn estyn cymorth cwnsela sy'n briodol o ran oedran i blant o dan y trothwy Blwyddyn 6 presennol.  Rwyf hefyd wrthi'n comisiynu gwaith ymchwil a gwerthuso

annibynnol mewn perthynas ag effeithiolrwydd y gwasanaeth cwnsela presennol a faint o gymorth sydd ei angen ar blant iau.

**Hwb Cymorth ACE**

Gwyddom fod plant mewn lleoliadau EOTAS ymhlith ein disgyblion mwyaf agored i niwed, a dyna pam mae ein buddsoddiad yn yr Hwb Cymorth ACE i Gymru yn cydnabod yr angen i sicrhau bod darparwyr EOTAS yn cael eu cynnwys yng ngwaith yr Hwb. Bu'n rhaid gohirio gwaith i dargedu EOTAS yn benodol, a oedd wedi'i gynllunio ar gyfer y flwyddyn ysgol hon, oherwydd pandemig y Coronafeirws.

Rydym wedi buddsoddi mwy nag £1.2m dros dair blynedd (gan gynnwys £300,000 i gefnogi gwaith gydag ysgolion yn benodol) yn yr Hwb Cymorth ACE i Gymru er mwyn helpu sefydliadau, cymunedau ac unigolion i ddeall am brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a chefnogi teuluoedd a all wynebu risg o'u profi. Rydym wedi darparu £500,000 ychwanegol i'r Hwb Cymorth ACE er mwyn iddo barhau ei waith am flwyddyn arall tan fis Mawrth 2021, sy'n cynnwys darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod i staff mewn ysgolion yn Sir y Fflint ac yn Wrecsam. Mae'r hyfforddiant hwn hefyd ar gael i staff o leoliadau EOTAS.

Mae gwaith yr Hwb Cymorth ACE yn cefnogi ein gwaith o ran datblygu ac ymgorffori dulliau ysgol gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol.

**14. A yw diffyg mynediad at wasanaethau iechyd meddwl plant a’r glasoed neu gymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn arwain at gyfeirio dysgwyr i leoliadau addysg heblaw yn yr ysgol pan fo’n bosibl nad dyma’r ddarpariaeth fwyaf addas i ddiwallu eu hanghenion?**

Mae fy safbwynt yn glir – mae gan bob plentyn yng Nghymru yr hawl i gael addysg ragorol a'r hawl i gael cymorth i fanteisio ar yr addysg honno – ni ddylai amgylchiadau plentyn fod yn rhwystr i gyflawni deilliannau cadarnhaol.

Addysg yw un o'r rhannau pwysicaf o fywyd plentyn, a rhaid inni weithio i sicrhau nad yw problem iechyd meddwl neu ADY yn atal plentyn rhag cyflawni ei botensial llawn, a dyna a wnawn.

Fel rwyf wedi'i nodi uchod, rydym wedi rhoi nifer o wasanaethau a rhaglenni ar waith i gefnogi llesiant ac iechyd meddwl ein holl ddysgwyr.

Yn ogystal, rwyf yn trawsnewid y system AAA bresennol drwy Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd ag ADY yn cael cymorth cynnar ac effeithiol, gan leihau'r risg o gael eu gwahardd o ganlyniad i broblemau ymddygiadol. Bydd barn, dymuniadau a theimladau'r dysgwr a'i rieni wrth wraidd y system newydd.

**15. Sut y gellir sicrhau bod addysg heblaw yn yr ysgol ar gael yn ehangach drwy gyfrwng y Gymraeg?**

Yn unol â Safonau'r Gymraeg, mae dyletswydd ar bob awdurdod lleol i sicrhau yr ystyrir y ffordd y gall polisïau newydd, neu bolisïau sydd wedi'u diweddaru, effeithio ar y Gymraeg a'r gallu i'w defnyddio, gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Disgwyliaf i bob awdurdod lleol ddarparu EOTAS drwy gyfrwng y Gymraeg pan fydd disgybl yn gofyn am y ddarpariaeth hon. Er fy mod yn ymwybodol o'r anawsterau yn y sector o ran recriwtio staff EOTAS sy'n siarad Cymraeg, rwy'n hyderus bod awdurdodau lleol yn gweithio i sicrhau bod darpariaeth Gymraeg ar gael mewn lleoliadau EOTAS. Ym mis Chwefror, gofynnais i fy swyddogion holi pob awdurdod lleol ynghylch ei ddarpariaeth Gymraeg mewn lleoliadau EOTAS ac unedau cyfeirio disgyblion. O'r 18 o awdurdodau lleol a ymatebodd, mae gan bob un ohonynt o leiaf un athro/aelod o staff cymorth sy'n siarad Cymraeg yn rhugl.

**16. Sut y gall staff mewn lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol gael eu cefnogi’n well i gael mynediad at gyfleoedd dysgu proffesiynol?**

Mae'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol ar gael i'r sector addysg cyfan, gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion. Mae hefyd ar gael i athrawon addysg yn y cartref os cânt eu cyflogi gan yr awdurdod lleol. Rwy'n parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod pob ymarferydd yn cael y cymorth sydd ei angen arno i gyflwyno ein cwricwlwm gweddnewidiol newydd.

Lansiwyd y Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol yn swyddogol yn 2018. Roedd y dull hwn ‘a wnaed yng Nghymru’ ar gyfer dysgu proffesiynol yn gam allweddol yn y broses ddiwygio. Mae'n cyd-fynd â'r safonau proffesiynol newydd, dull gweithredu a model dysgu proffesiynol ‘Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu’, i greu gweledigaeth addas ar gyfer y system addysg sy'n datblygu yng Nghymru i bob ymarferydd addysgol, nid dim ond athrawon.

Mae'n seiliedig ar ymchwil genedlaethol a rhyngwladol bwysig, ac mae wedi'i gynllunio er mwyn sicrhau'r canlynol:

- y gall ysgolion, arweinwyr ac athrawon gael gafael ar enghreifftiau o arferion gorau wrth ddiffinio a rhannu Dysgu Proffesiynol ar lefel ysgolion, yn enwedig drwy ddefnyddio dulliau ymholi beirniadol a dysgu cydweithredol;
- bod darparwyr dysgu proffesiynol – y consortia rhanbarthol, ein Prifysgolion ac eraill – yn dylunio profiadau Dysgu Proffesiynol sydd o ansawdd uchel, yn hygyrch ac yn addas at y diben, er enghraifft drwy ddyluniadau sy'n cynnwys ymholi cydweithredol ac e-ddysgu;
- bod y llywodraeth yn cyllido'r mathau priodol o ddysgu proffesiynol y gwyddom, ar sail tystiolaeth, y byddant yn cael effaith ar arferion mewn ystafelloedd dosbarth.

Mae sicrhau bod adnoddau digonol ar gael ar gyfer dysgu proffesiynol i bob ymarferydd, gan gynnwys adnoddau ariannol ac amser i athrawon ac arweinwyr achub ar gyfleoedd datblygu o ansawdd uchel, yn rhan annatod o'r Dull Cenedlaethol. Mae'r Grant Dysgu Proffesiynol, sy'n rhoi cyllid i ysgolion er mwyn cefnogi anghenion dysgu proffesiynol eu gweithluoedd, yn cael ei ddarparu i unedau cyfeirio disgyblion hefyd er mwyn sicrhau bod lleoliadau yn gallu manteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol yn yr un modd â lleoliadau prif ffrwd.

**17. Pa welliannau y gellir eu gwneud i strwythur gyrfa staff sy’n gweithio mewn lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol?**

**Safonau proffesiynol**

Rwyf wedi cyflwyno safonau proffesiynol ar gyfer pob ymarferydd, gan gynnwys y rhai sy'n addysgu mewn unedau cyfeirio disgyblion. Dyluniwyd y safonau proffesiynol er mwyn ysbrydoli ymarferwyr a chynnig fframwaith i'w cefnogi i nodi eu hanghenion

dysgu proffesiynol eu hunain. Mae'r safonau ar gyfer y gweithlu addysgu cyfan, gan gynnwys staff cymorth, ni waeth beth fo dyheadau unigolyn na ble y mae yn ei yrfa.

Gall ymarferwyr weld y safonau ar-lein drwy eu Pasbort Dysgu Proffesiynol neu drwy ddefnyddio'r ap, er mwyn myfyrio ar eu hymarfer a nodi meysydd o ddatblygiad proffesiynol. Dechreuwyd rhoi'r safonau ar waith yn 2017 ac rydym bellach wedi cyrraedd pwynt lle gellir dechrau gwerthusiad annibynnol o'r ffordd y rhoddwyd y safonau ar waith, sut y cânt eu defnyddio a'u heffaith ar ymarfer yn yr ystafell ddosbarth.

Mae swyddogion wedi comisiynu gwerthusiad annibynnol o'r ffordd y rhoddwyd y safonau ar waith, sut y cânt eu defnyddio a'u heffaith ar ymarfer yn yr ystafell ddosbarth. Bydd y canfyddiadau yn llywio gweithgarwch parhaus Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chefnogi pob ymarferydd i ddatblygu drwy gydol ei yrfa. Disgwylir canfyddiadau cychwynnol yr adolygiad ym mis Ionawr 2021.

**Llwybr Dysgu i Gynorthwywyr Addysgu**
Mae Cynorthwywyr Addysgu yn hanfodol i lawer o unedau cyfeirio disgyblion sy'n gweithio mewn partneriaeth â'r Consortia Rhanbarthol. Mae Llwybr Dysgu i Gynorthwywyr Addysgu wedi cael ei ddatblygu i gefnogi eu datblygiad, gan gynnwys y rhai mewn unedau cyfeirio disgyblion. Mae'r Llwybr Dysgu i Gynorthwywyr Addysgu yn gwbl gyson â'n safonau proffesiynol newydd ac mae'n berthnasol i Gynorthwywyr Addysgu newydd a rhai profiadol.

**Hyfforddiant sefydlu statudol i athrawon newydd gymhwyso**
Mae hyfforddiant sefydlu yn ofyniad statudol i bob athro â statws athro cymwysedig sydd am addysgu mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Mae hyfforddiant sefydlu yn rhan hollbwysig o ddatblygiad proffesiynol athro newydd, ac mae'n hanfodol bod athrawon newydd gymhwyso (ANGau) yn cael y cymorth a'r profiadau proffesiynol sydd eu hangen arnynt i dyfu a datblygu'n broffesiynol.

Caiff adolygiad annibynnol o brofiadau ymarferwyr a rhanddeiliaid o hyfforddiant sefydlu, ynghyd ag adolygiad o raglenni hyfforddiant sefydlu consortia, eu defnyddio i lywio trefniadau sefydlu newydd sy'n cael eu datblygu fel rhan o Becyn Cymorth

Gyrfa Gynnar a fydd yn cynyddu lefelau'r cymorth sydd ar gael i ANGau ac ymarferwyr sydd ar gamau cynnar yn eu gyrfa.

Rwy'n cydnabod y risg o golli aelodau da o staff mewn unedau cyfeirio disgyblion am nad yw trefniadau statudol yn caniatáu i ANGau ymgymryd â hyfforddiant sefydlu mewn uned cyfeirio disgyblion ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rwy'n falch bod hyfforddiant sefydlu statudol yng Nghymru yn cael ei adolygu ac, fel rhan o hynny, caiff dichonoldeb caniatáu i ANGau ymgymryd â hyfforddiant sefydlu mewn unedau cyfeirio disgyblion ei ystyried.

**18. A fyddai Gweinidogion Cymru yn ystyried defnyddio'u pwerau statudol i ymyrryd pan fo achosion clir o ddadgofrestru disgyblion pan nad yw'r awdurdod lleol wedi ymyrryd?**

Mae'r mwyafrif o ysgolion yng Nghymru yn gweithio'n galed i fod yn gynhwysol, ond rwyf yn benderfynol o sicrhau nad yw ysgolion yn tynnu disgyblion oddi ar eu cofrestr yn amhriodol.

Byddai'n well gennyf beidio â defnyddio pwerau statudol i fynd i'r afael ag arferion cofrestru disgyblion amhriodol, gan ffafrio yn hytrach waith i gynyddu ein hymdrechion a gweithio gydag Estyn ac awdurdodau lleol i sicrhau nad yw achosion amhriodol o gofrestru disgyblion yn digwydd. Fodd bynnag, byddaf yn barod i ystyried yr opsiwn hwn os bydd tystiolaeth yn dangos bod arferion cofrestru amhriodol yn parhau.

Proses weinyddol yw tynnu disgyblion oddi ar y gofrestr mewn ysgol – 'dadgofrestru' – ac mae'n digwydd am nifer o resymau. Gall hyn gynnwys disgyblion yn symud ardal ac felly'n newid ysgolion a rhieni yn penderfynu yr hoffent addysgu eu plant gartref.

Fodd bynnag, rwy'n ymwybodol o rai achosion lle mae ysgolion wedi defnyddio cofrestriad disgybl er mwyn gwella canlyniadau arholiadau. Mae hyn yn amlwg yn annerbyniol ac rwyf wedi cymryd nifer o gamau i sicrhau nad yw hyn yn digwydd.

Rwyf wedi cyflwyno gwiriadau dilysu llymach pan fydd ysgolion yn cyflwyno data eu Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Bydd hyn yn sicrhau bod disgyblion yn cael eu cofnodi yn y flwyddyn ysgol briodol, yn enwedig ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11. Canfu adroddiad Estyn ar Arferion Cofrestru Disgyblion, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2019, y bu gostyngiad yn 2018/19 yng nghanran y disgyblion a oedd yn ailsefyll Blwyddyn 10 – newid y gellir ei briodoli, fwy na thebyg, i'r gwiriadau llymach hyn.

Yn ogystal, fel y nodwyd gennyf uchod, mae trefniadau gwerthuso a gwella newydd yn cael eu datblygu er mwyn gwneud y gydberthynas rhwng gwerthuso, gwella ac atebolrwydd yn y system ysgolion yn glir. Drwy'r trefniadau newydd, cynigir cael gwared ar y pwyslais hwn, sy'n gallu achosi canlyniadau anfwriadol, a chyflwyno ystod ehangach o wybodaeth i ysgolion ei defnyddio sy'n rhoi darlun gwell o'r profiad dysgu cyfan, cynnydd dysgwyr a'n huchelgeisiau ar gyfer y cwricwlwm newydd.

Mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed gan Estyn yn ei hadroddiad ar gofrestru disgyblion, byddwn yn casglu data am gyrchfannau er mwyn mesur pa mor effeithiol yw'r ddarpariaeth EOTAS. Yn ogystal, rwy'n ystyried a ellid newid y trefniadau presennol ar gyfer cofrestru disgyblion EOTAS er mwyn cefnogi atebolrwydd cynyddol o ran deilliannau disgyblion EOTAS.

**CYPE(5)-26-20 - Papur i'w nodi 2**

Lynne Neagle, MS
Chair, Children, Young People and Education Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

20th October 2020

Dear Lynne Neagle, Chair of Children, Young People and Education Committee,

We are writing as a collective to highlight our concerns about the impact the COVID-19 pandemic is having on perinatal mental health, and parent-infant relationships in Wales.

We are in an unprecedented time, facing a global public health crisis. What is becoming increasingly clear is that the mental health needs of pregnant women and new parents, and their babies are being overlooked[1]. This is despite emerging international evidence which suggests that women are at increased risk of developing mental health problems in the perinatal period due to the COVID-19 pandemic[2], and the detrimental impact it is having on the wellbeing of babies and toddlers[3].

Before the pandemic, up to 1 in 5 mums and 1 in 10 dads experienced mental health problems during pregnancy and after birth. Since the outbreak of COVID-19, the subsequent lockdown requirements and social distancing measures, parents are facing unpresented pressures, heightened anxieties and are struggling to access family support and the mental health services they need. For parents, poor mental health in the perinatal period can make it difficult to provide sensitive and attuned care and form crucial relationships with their babies, potentially affecting a child's overall development.

**The impact of COVID-19 on parents & babies in Wales**

- The Babies in Lockdown (2020) research showed that for 66% of respondents from Wales, parental mental health was cited as a main concern during lockdown, and only 26% felt confident that they could find help for mental health if they needed it

[1] Thapa, S. B., Mainali, A., Schwank, S. E and Acharya, G (2020) Maternal mental health in the time of the COVID-19 pandemic. *Acta Obstet Gynecol Scand*. 99 (7): 817-818.
[2] See for example: Babies in Lockdown: listening to parents to build back better (2020). Best Beginnings, Home-Start UK, and the Parent-Infant Foundation; Das, R (2020) COVID-19, perinatal mental health and the digital pivot. Findings from a qualitative project and recommendations for a 'new normal'. University of Surrey; Davenport, M.H., Meyer, S., Meah, V. L., Strynadka, M.C and Khurana, R (2020) Moms Are Not OK: COVID-10 and Maternal Mental Health. *Frontiers in Global Women's Health*. 1 (1): 1-6; Thapa, S. B., Mainali, A., Schwank, S. E and Acharya, G (2020) Maternal mental health in the time of the COVID-19 pandemic. *Acta Obstet Gynecol Scand*. 99 (7): 817-818
[3] Babies in Lockdown: listening to parents to build back better (2020). Best Beginnings, Home-Start UK, and the Parent-Infant Foundation

- The Babies in Lockdown (2020) research showed that 69% of parents in Wales felt the changes brought about by COVID-19 were affecting their unborn baby, baby or young child. 41% of the respondents reported feeling unconfident that they could find help with baby's wellbeing and development if they needed it

- Early findings from the first 100+ women in the Born in Wales study shows that 6 in 10 pregnant women report periods of low mood, including feeling down and depressed[4]. The majority of women (7 in 10) reported a negative pregnancy experience, feeling 'isolated', 'alone', 'lonely' 'distant' and 'not supported'

- 'COVID 19 - new parents in Wales' survey by Bethan Sayed MS, showed that of those who had given birth during lockdown (N=187), 90% (N=168) felt isolated as new parents, and 63% had not received their 6-week post-natal check

Without the right support, perinatal mental health problems, and difficulties in the parent-infant relationship can have serious immediate and long-term consequences for families. Before the pandemic, there were already significant gaps in specialist perinatal mental health services, with only two out of the seven (29%) health boards in Wales meeting CCQI perinatal quality network standards[5], and an absence of a mother and baby unit for families needing specialist inpatient support. The Rare Jewels (2019) report also highlighted the lack of specialised parent-infant relationship teams in Wales[6]. With concerns rising about the anticipated surge of need for families requiring perinatal and infant mental health support as a result of the COVID-19 crisis, urgent measures are needed to support the mental health of all expectant and new parents and their babies.

As we face a second wave of COVID-19, families need care and support from sufficiently staffed and resourced perinatal mental health, maternity, health visiting, primary care, and parent-infant services. These services are unique, and play an essential role in safeguarding and promoting the welfare of mums, dads/partners and the healthy development of infants, which means they must be protected and resourced.

We are calling on Welsh Government to:

- Give assurances that the midwifery, health visiting, perinatal mental health and infant mental health workforce will be protected from redeployment throughout the COVID-19 crisis
- Prioritise existing commitments to improving access and the quality of perinatal mental health services[7], including sufficient funding to ensure all community perinatal mental health services can meet CCQI quality standards, and progressing the interim mother and baby unit as a key priority

---

[4] Brophy S, Todd C, Toomey S. (2020) Early findings from first 100+women in Born in Wales https://ncphwr.org.uk/wp-content/uploads/2020/09/Born-In-Wales-Newsletter-Sep2020-1.pdf
[5] See: https://maternalmentalhealthalliance.org/campaign/maps/
[6] Sally Hogg (2019) Rare Jewels: Specialised parent-infant relationship teams in the UK. Parent Infant Partnership UK
[7] As outlined in the Review of the Together for Mental Health Delivery Plan 2019-2022 in response to Covid-19

- Provide additional investment for perinatal mental health services and voluntary services to cope with the increase in demand as a result of COVID-19
- Provide investment to grow specialised parent-infant relationship services across Wales, to support and strengthen the important relationships between babies and their parents or carers

As part of its follow up inquiry on the impact of COVID-19, we urge the Committee to consider the impact that the COVID-19 pandemic is having on perinatal mental health, and parent-infant relationships in Wales.

As a collective, we would welcome any opportunities to support the Committee's work in this area, and we are available to provide further written or oral evidence, should this be useful.

Kind regards

Dr. Sarah Witcombe-Hayes
Senior Policy Researcher, NSPCC Cymru/Wales
Wales Coordinator, Everyone's Business Campaign, Maternal Mental Health Alliance

Professor Ian Jones
Professor of Psychiatry
Director, National Centre for Mental Health,
Cardiff University

# Eitem 4.3

CYPE(5)-26-20 - Papur i'w nodi 3

Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

Elin Jones AS
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

22 Hydref 2020

Annwyl Elin

**Craffu ar reoliadau Covid-19**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Hydref 2020, a drafodwyd gennym yn ein cyfarfodydd ar 12 Hydref a 19 Hydref 2020.

Roedd eich llythyr yn ceisio canfod a fyddai'n briodol bod Llywodraeth Cymru yn tynnu sylw at Reoliadau newydd lle'r oedd yr egwyddor sylfaenol eisoes wedi bod yn destun craffu, er mwyn galluogi'r Pwyllgor Busnes i wneud penderfyniad ynghylch lefel y gwaith craffu pellach a allai fod yn ofynnol cyn y ddadl. O ganlyniad, gwnaethoch ofyn am ein barn ynghylch a oedd posibilrwydd o alluogi rhai Rheoliadau sy'n gysylltiedig â Covid-19 i gael eu blaenoriaethu i'w trafod mewn amgylchiadau o'r fath.

Nid ydym yn credu bod yr opsiwn a awgrymwyd gan y Pwyllgor Busnes yn briodol am sawl rheswm. Yn ein barn ni, ni ddylai cymeradwyaeth ar gyfer unrhyw fath o ddeddfwriaeth fod ar sail 'mewn egwyddor'. Felly nid ydym yn gweld y bydd gennym rôl wrth gymeradwyo (neu wrthod) unrhyw asesiad gan Lywodraeth Cymru bod cyfres benodol o reoliadau, mewn egwyddor, yr un fath â chyfres flaenorol. At hynny, byddai gwerth asesiad o'r fath yn amheus yn ein barn ni, o gofio er y gallai cyfres newydd o reoliadau ddilyn amcan polisi tebyg, y gallent fod yn destun pwyntiau i adrodd yn eu cylch o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 o hyd.

Credwn fod ein gwaith craffu ar yr holl reoliadau Covid-19 wedi bod yn effeithlon ac amserol. Rydym wedi adrodd ar y mwyafrif o reoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gwneud cadarnhaol cyn pen 14 diwrnod ar ôl gosod yr offeryn. Yn y mwyafrif o achosion, mae hyn wedi galluogi'r Senedd i bleidleisio ar a ddylai'r rheoliadau aros mewn grym ymhell cyn yr 28 diwrnod a ganiateir yn ôl *Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984* a'r 40 diwrnod a ganiateir yn ôl *Deddf y Coronafeirws 2020* (y cydsyniodd y Senedd iddi ym mis Mawrth eleni). Byddem hefyd yn dymuno tynnu sylw at y ffaith bod mwyafrif y rheoliadau gwneud cadarnhaol wedi'u gosod ar ddydd



**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
0300 200 6565

Gwener; mae hyn, ynghyd â'n slot cyfarfod ar fore Llun yn golygu y bu, yn anochel, bwlch o wythnos rhwng y gosod a chraffu ar y rheoliadau gan y Pwyllgor, waeth beth fu'r gwaith a oedd yn angenrheidiol i baratoi adroddiadau i'w hystyried gan y Pwyllgor. Rydym hefyd yn tynnu sylw at sylwadau Vaughan Gething AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn y Cyfarfod Llawn ar **6 Hydref 2020**, yr ydym yn eu croesawu:

> "Rwyf i hefyd yn croesawu'r ffaith bod y pwyllgor, o bryd i'w gilydd, wedi ein helpu ni o ran cysondeb mewn darpariaethau deddfwriaethol. Mae hynny'n rhan o bwynt y craffu. Rydym ni'n gwneud y rheoliadau hyn mewn modd cyflym oherwydd y darlun sy'n newid yn gyflym o ran y coronafeirws, ac rwy'n credu bod gwerth i'r pwyllgor ymgymryd â'i swyddogaeth graffu cyn i'r ddeddfwrfa wedyn allu arfer ei swyddogaeth wrth benderfynu pa un a all y rheoliadau hyn barhau ai peidio."

Rydym, serch hynny, wedi ystyried amrywiaeth o opsiynau i hwyluso proses graffu gyflymach fyth. Gwnaethom drafod a fyddai cyfarfod yn amlach nag unwaith yr wythnos yn hwyluso'r gwaith craffu ar reoliadau a osodir gan Lywodraeth Cymru ar wahanol adegau yn ystod yr wythnos waith flaenorol. O ystyried arfer Llywodraeth Cymru o osod mwyafrif y rheoliadau gwneud cadarnhaol ar ddydd Gwener, gwnaethom hefyd ystyried a fyddai'n ymarferol symud slot cyfarfod rheolaidd ein Pwyllgor i fore Mercher, er mwyn ystyried rheoliadau a wnaed y dydd Gwener blaenorol ac i osod adroddiad mewn pryd ar gyfer dadl y prynhawn hwnnw. Gwnaethom hefyd drafod a allem roi ymrwymiad ffurfiol i adrodd ar reoliadau gwneud cadarnhaol o fewn terfyn amser o 14 diwrnod.

Daethom i'r casgliad, fodd bynnag, bod dulliau o'r fath yn debygol iawn o arwain at broblemau sylweddol o ran amserlennu ar gyfer Llywodraeth Cymru ac Aelodau o'r Senedd. At hynny, o ystyried cymhlethdod y ddeddfwriaeth hon, mae unrhyw ffurfioli o ran ein trefniadau presennol ar gyfer craffu ar ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â Covid-19 angen ei ystyried ochr yn ochr â nifer cynyddol o ddeddfwriaeth sy'n ymdrin ag ymadawiad y DU â'r UE, yn anad dim oherwydd y gallai ffurfioli o'r fath ei gwneud yn ofynnol i gael adnoddau ychwanegol neu batrymau gwaith gwahanol. Mae'r pwynt olaf hwn yn arbennig o berthnasol o ystyried bod ein cylch gwaith yn golygu bod ein rhaglen waith wedi'i chyfyngu'n fawr ar hyn o bryd gan y gwaith craffu angenrheidiol a phwysig ar is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag ymadael â'r UE a memoranda cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer Biliau sy'n ymwneud ag ymadawiad y DU â'r UE, gan gynnwys Bil Marchnad Fewnol y DU sy'n arwyddocaol o ran y cyfansoddiad.

Rydym yn cydnabod bod materion sy'n ymwneud â'r pandemig wedi'u blaenoriaethu yn amser y llywodraeth yn ystod sesiynau'r Cyfarfod Llawn. Gwnaethom hefyd ystyried a allai Llywodraeth Cymru ystyried defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft os yn bosibl o gwbl wrth lunio deddfwriaeth sy'n gysylltiedig â Covid-19 o dan adran 45C o Ddeddf 1984. Er ein bod yn gwerthfawrogi efallai na fydd hyn yn ymarferol, byddem yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried a oes cyfleoedd o gwbl i'w defnyddio.

Byddwn yn parhau i wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod gwaith craffu ar reoliadau sy'n gysylltiedig â Covid-19 yn cael ei gynnal mewn modd amserol. Fodd bynnag, nid ydym yn credu y dylid peryglu ein swyddogaeth graffu o dan unrhyw amgylchiadau.

Anfonaf gopi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion pob pwyllgor.

Yn gywir



**Mick Antoniw AS**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English

**CYPE(5)-26-20 - Papur i'w nodi 4**

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
Welsh Parliament
**Children, Young People and Education Committee**

Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg

Dyddiad | Date: 22 Hydref 2020

Pwnc | Subject: **Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru): Cyfnod 1**

Annwyl Kirsty,

Diolch i chi, ynghyd â'ch swyddogion, am fod yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor yr wythnos hon i roi tystiolaeth lafar ar egwyddorion cyffredinol y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru).

Yn ystod y cyfarfod gwnaethoch ymrwymo i ddarparu'r canlynol:

- esboniad ysgrifenedig o ran pam mae Llywodraeth Cymru yn teimlo y byddai'n amhriodol gosod dyletswyddau ar bersonau / cyrff perthnasol sy'n arfer swyddogaethau o dan y Bil i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) ac mai dim ond y Llywodraeth a'r Gweinidogion ddylai fod yn gyfrifol am ddyletswyddau o'r fath;
- manylion y gwelliant/gwelliannau yr ydych yn bwriadu eu cyflwyno, pe bai'r Bil yn symud ymlaen i Gyfnod 2, mewn perthynas â gofynion i addysgu Saesneg cyn 7 oed, gan alluogi'r cysyniad o drochi yn y Gymraeg;
- diweddariad ar yr amcangyfrif o gostau'r Bil yn dilyn ailddechrau a chwblhau gwaith perthnasol gyda rhanddeiliaid.

Gwnaethom hefyd nodi y byddem yn ysgrifennu atoch gyda chwestiynau nas cyrhaeddwyd yn ystod y sesiwn gan fod amser yn brin. Gweler y rhain wedi'u rhestru yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Yng ngoleuni ein dyddiad cau, sef 4 Rhagfyr, ar gyfer cyflwyno adroddiad, byddwn yn ddiolchgar iawn o gael y wybodaeth ysgrifenedig hon erbyn dydd Iau 5 Tachwedd.

Yn gywir,

**Lynne Neagle AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPPIA@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCYPE@senedd.wales
0300 200 6565

## ATODIAD

Ni chyrhaeddwyd y cwestiynau isod yn ystod y sesiwn ar 21 Hydref. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o gael ateb ysgrifenedig i lywio ei adroddiad a'i argymhellion.

**Dull y Bil**

- A ydych yn parhau yn gwbl hyderus mai'r dull y mae'r Bil yn ei osod ar gyfer y Cwricwlwm newydd i Gymru, gan ddarparu lefel uchel o hyblygrwydd i ysgolion a disgresiwn i benaethiaid drwy roi terfyn ar gwricwlwm cenedlaethol sydd wedi'i ragnodi'n drwm, yw'r ffordd orau o wella ysgolion a chodi safonau yn gyffredinol? Rydych wedi tynnu sylw at ddiffygion y system bresennol fel rhan o'r rheswm dros newid, ond sut gallwch fod yn sicr y bydd y math penodol hwn o newid yn gwella, yn hytrach na'n gwaethygu, safonau a pherfformiad ysgolion?
- Rydych wedi egluro sut y bydd materion fel iechyd meddwl a llesiant, a chydraddoldeb ac amrywiaeth, yn cael eu haddysgu fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru, drwy'r Meysydd Dysgu a Phrofiad, Cod yr Hyn sy'n Bwysig a'r canllawiau statudol, ac wedi dadlau nad oes angen iddynt gael eu cynnwys ar wyneb y Bil. Pam nad yw'r dull hwn yn cael ei ystyried yn ddigonol yn achos Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg, sydd ill dau yn elfennau gorfodol a bennir ar wyneb y Bil?

**Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg**

- Rydym wedi cael tystiolaeth gan sefydliadau ffydd, sy'n nodi, er bod yr addysg crefydd, gwerthoedd a moeseg enwadol a ddarperir gan ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir eisoes yn "blwraliaethol", ac y bydd yn parhau i fod yn blwraliaethol, y bydd ei gwneud yn ofynnol iddynt ddylunio a darparu (os gofynnir am hynny) addysg crefydd, gwerthoedd a moeseg **sy'n cyd-fynd â'r** maes llafur cytunedig yn gallu peri i ysgolion unigol dorri rheolau gweithredoedd ymddiriedolaeth yr ysgol. Ai dyma'ch dealltwriaeth chi o'r sefyllfa?
- A yw'n bosibl i addysg crefydd, gwerthoedd a moeseg enwadol **gyd-fynd** â'r maes llafur cytunedig, hyd yn oed pan fo'r addysg crefydd, gwerthoedd a moeseg enwadol yn blwraliaethol?
- Os nad yw'n bosibl, a yw'n dilyn y bydd yn rhaid i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir bob amser ddylunio dau faes llafur (un sy'n cyd-fynd â gweithredoedd ymddiriedolaeth yr ysgol / daliadau'r grefydd, ac un sy'n cyd-fynd â'r maes llafur cytunedig)?
- Pam mae'r sefyllfa'n wahanol i ysgolion gwirfoddol a reolir, y mae'n ofynnol iddynt ddylunio a darparu addysg crefydd, gwerthoedd a moeseg **gan roi sylw** i'r maes llafur cytunedig? A yw'r ffaith mai dim ond **rhoi sylw** i'r maes llafur cytunedig y mae'n rhaid iddynt ei wneud yn golygu ei bod yn haws iddynt ddarparu un maes llafur sy'n gwneud hyn ac, sydd ar yr un pryd, yn **cyd-fynd â** gweithredoedd ymddiriedolaeth / ddaliadau'r grefydd o ran yr ysgol.
- Gwnaethoch nodi nad oes data ffurfiol yn cael eu casglu ar nifer y rhieni sy'n tynnu eu plant o wersi addysg rhyw ar hyn o bryd ond y credir ei fod, yn anecdotaidd, yn nifer fach iawn. A yw'r un peth yn wir o ran nifer y rhieni sy'n tynnu eu plant o wersi addysg grefyddol ar hyn o bryd?
- O ystyried bod hwn yn Gwricwlwm pwrpasol i Gymru, pam mae adran 62 o'r Bil yn cyfeirio at draddodiadau crefyddol ac argyhoeddiadau athronyddol nad ydynt yn grefyddol ym "Mhrydain Fawr", yn hytrach nag yng "Nghymru", yn y gofyniad o ran Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg?

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
Welsh Parliament
**Children, Young People and Education Committee**

Vaughan Gething AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Eluned Morgan AS, Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a’r Gymraeg

Julie Morgan AS, y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg

Dyddiad | Date: 26 Hydref 2020

Pwnc | Subject: **Effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc - y cyfnod atal byr a’r tu hwnt**

Annwyl Weinidogion,

Ddydd Llun, 19 Hydref, cyhoeddodd y Prif Weinidog ei fod yn bwriadu cyflwyo cyfnod atal byr rhwng 18:00 ddydd Gwener 23 Hydref a 00.01 ddydd Llun 9 Tachwedd.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu’r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau ei hymrwymiad i roi blaenoriaeth i blant yn y Datganiad Cabinet. Mae hefyd yn nodi'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â rhai o bryderon y Pwyllgor yn ystod y cyfyngiadau symud diwethaf mewn perthynas â gofal plant, meysydd chwarae, a pharhau i addysgu plant yn ein hysgolion cynradd ac uwchradd a phobl ifanc mewn addysg bellach ac addysg uwch.

Mae’r Pwyllgor yn parhau i graffu ar effaith Covid-19 ar blant a phobl ifanc. I lywio ein cyfres nesaf o sesiynau (caiff y manylion eu cyhoeddi cyn bo hir) byddem yn ddiolchgar pe gallech ateb y cwestiynau yn yr atodiad i’r llythyr hwn. O gofio bod amser yn allweddol yn y cyswllt hwn, byddem yn ddiolchgar pe gallwch wneud hynny erbyn dydd Gwener 6 Tachwedd.

Yn gywir,



**Lynne Neagle AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a’r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPPIA@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCYPE@senedd.wales
0300 200 6565

## ATODIAD

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu ymateb i'r pwyntiau isod:

- A gafodd Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ei baratoi a'i ddefnyddio wrth benderfynu cyflwyno cyfnod atal byr o 23 Hydref ymlaen? A fyddai modd cyhoeddi'r Asesiad hwn a rhoi copi i'r Pwyllgor?

- Pa sail resymegol sydd i'r penderfyniad i ailagor ysgolion cynradd ac arbennig, yn ogystal ag ysgolion uwchradd i blant ym mlynyddoedd saith ac wyth, ar ôl hanner tymor, ond i beidio â gwneud hynny yn achos y grwpiau blwyddyn eraill yn yr ysgolion uwchradd neu'r colegau (bydd llawer o'r disgyblion hyn yn sefyll arholiadau yn ystod y flwyddyn academaidd hon ac mae'n bosibl bod y pandemig wedi effeithio ar eu llesiant eisoes)?

  *[DS sylwn y bydd y disgyblion ysgol eraill yn parhau i ddysgu gartref am wythnos ychwanegol; bydd colegau yn cynnig darpariaeth ar-lein yn unig yn ystod yr wythnos yn dilyn hanner tymor; bydd rhaglenni dysgu yn y gwaith, fel prentisiaethau a hyfforddeiaethau, hefyd yn cael eu darparu ar-lein yn unig dros y cyfnod atal byr; a bydd disgyblion ysgol a myfyrwyr coleg yn gallu mynd i'w lleoliadau i sefyll arholiadau.]*

- Sut y sicrhawyd bod dyletswydd Llywodraeth Cymru i roi sylw dyledus i erthygl 28 o'r CCUHP yn cael ei chymhwyso i'r penderfyniad y byddai disgyblion blwyddyn 9 a hŷn yn cael eu haddysgu gartref?

- Pa ganllawiau a chymorth sydd / a fydd ar gael i sicrhau bod myfyrwyr ym mlynyddoedd 9-13 a / neu'r coleg yn cael darpariaeth ar-lein o safon ar ôl y gwyliau hanner tymor?

- Pa drefniadau penodol y mae Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â'r sector addysg uwch, wedi'u rhoi ar waith mewn perthynas â lles myfyrwyr, gwasanaethau cymorth a llety yn ystod y cyfnod atal byr a'r tu hwnt?

  *[DS rydym yn croesawu'r cyllid o £10 miliwn a **gyhoeddwyd** ar 22 Hydref 2020 i gynorthwyo myfyrwyr yn ystod y pandemig a'r ffaith bod y Llywodraeth wedi penderfynu ar y fethodoleg ddosbarthu'n gyflym.]*

- Pa drefniadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cyflwyno i gydweithio a chydgysylltu â darparwyr addysg uwch? Pa faterion neu risgiau sylweddol y mae darparwyr wedi tynnu sylw Llywodraeth Cymru atynt mewn perthynas â'r cyfnod atal byr a'r mesurau tymor hwy, a faint o'r rhain sy'n parhau?

- Pa waith fydd yn mynd rhagddo yn ystod y cyfnod atal byr i fonitro ac asesu ei effaith ar blant a phobl ifanc (gan gynnwys myfyrwyr addysg bellach ac addysg uwch)? Pa gynlluniau sydd ar waith i ddysgu o'r cyfnod hwn - ac i ddatblygu'r egwyddorion y dylid eu mabwysiadu - wrth wneud penderfyniadau am unrhyw gyfnod atal byr posibl yn y dyfodol?

- A allwch chi gadarnhau'r prif ffactorau y byddwch chi'n eu hystyried, ac o ba ffynonellau y byddwch chi'n cael cyngor, wrth benderfynu sut i ddyfarnu cymwysterau yn 2021 ac wrth ystyried amserlen ar gyfer gwneud a chyhoeddi'r penderfyniad hwn?

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon